Canllaw i'r taliadau am Ofal Cartref a Gwasanaethau Cymunedol eraill

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Os hoffech gael y daflen hon mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, ffoniwch ☎01267 228925

Os ydych yn credu y gallai fod angen cymorth arnoch i barhau i fyw gartref yna dylech gysylltu ag un o'r Timoedd Gofal Oedolion a restrir isod:

Caerfyrddin	01267 224421
Dinefwr	01558 825371
Llanelli	01554 779621

Mae gwybodaeth am wasanaethau a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar gael ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH51/04/07/b

Cynnwys:

Cyflwyniad	3
Pa wasanaethau mae'r Cyngor yn codi tâl amdanynt?	3
Taliadau Uniongyrchol	4
Gwasanaethau Warden a Llinell Gofal	4
Beth fydd yn rhaid imi dalu am fy Ngofal Cartref?	4
Sut mae'r tâl yn cael ei weithio allan?	5
Incwm	6
Lwfansau neu Ddiystyriadau	6
Cynilion	7
Budd-daliadau Anabledd	7
Costau Anabledd	8
Taliadau wrth yr Awr a'r Uchafswm	8
Prydau Bwyd a Chludiant	9
Gwasanaethau Golchi dillad	9
Gofal Nos	10
Dau Gynorthwy-ydd Gofal	10
Gwyliau	10
Aros mewn Ysbyty	10
Trefniadau ar gyfer Asesiadau Ariannol	10
Asesiadau Ariannol ar y Cyd	12
Os ydych yn credu bod eich Asesiad Ariannol yn anghywir	13
Apeliadau	13
Cysylltu	14
Cwynion	14

Cyflwyniad

Yn Ebrill 2004 cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru reolau newydd ar gyfer taliadau Gofal Cartref. Y nod yw sicrhau bod cysylltiad agos rhwng y taliadau a godir am wasanaethau a gallu'r unigolyn i dalu.

Pa wasanaethau mae'r Cyngor yn codi tâl amdanynt?

Mae gan y Cyngor un tâl am:

- Prydau bwyd mewn canolfannau gofal dydd;
- Cludiant i ganolfannau gofal dydd;
- Prydau Cymunedol;
- Gwasanaethau golchi dillad;
- Gwasanaethau Warden a Llinell Gofal.

Mae pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn talu'r un tâl. Ar ben hynny, codir tâl wrth yr awr am Ofal Cartref ond bydd y swm a delir gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn dibynnu ar nifer yr oriau gofal y dylai eu cael yn ôl ei asesiad yn ogystal â'i incwm a'i gynilion. Fel canlyniad, bydd rhai pobl yn derbyn gwasanaeth Gofal Cartref rhad ac am ddim.

Taliadau Uniongyrchol

Bydd rhaid i'r rhai sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol dalu ar yr un sail â'r Defnyddwyr Gwasanaeth hynny sy'n derbyn Gofal Cartref.

Gwasanaethau Warden a Llinell Gofal

Mae gan y Cyngor yr un tâl ar gyfer pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Er hynny, bydd hawl gan rai Defnyddwyr Gwasanaeth dderbyn cymhorthdal i'w helpu nhw dalu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu naill ai â'r Llinell Gofal ar 01558 824283 (e-bost: careline@sirgar.gov.uk) neu'r Tîm Cefnogi Pobl ar 01558 825375 (e-bost: Supportingpeople@sirgar.gov.uk).

Beth fydd yn rhaid imi dalu am fy Ngofal Cartref?

Nid oes un ateb syml. Bydd hynny'n dibynnu ar nifer yr oriau gofal y dylech eu cael yn ôl eich **asesiad**. Hefyd bydd yn dibynnu ar eich cynilion, eich incwm a'ch lwfansau ond bydd neb yn talu mwy na'r uchafswm. Nid yw gwerth eich prif gartref yn cael ei gyfrif fel rhan o'ch cynilion. Mae'n werth nodi nad oes neb yn talu'r gost lawn am Ofal Cartref. Mae pob awr yn cynnwys cymhorthdal, gan fod y tâl wrth yr awr yn llai na'r hyn mae'n ei gostio i'r Awdurdod Lleol ddarparu'r gwasanaeth.

Bydd y Cyngor yn codi tâl am wythnos gyfan o wasanaeth ar y tro, nid am ran o wythnos. Bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn talu am yr wythnos gyfan y bydd y gwasanaeth yn dechrau ac ni fydd yn talu dim am yr wythnos y bydd y gwasanaeth yn gorffen.

Sut mae'r tâl yn cael ei weithio allan?

Mae asesiad ariannol personol yn cael ei gynnig i'r Defnyddwyr Gwasanaeth er mwyn penderfynu faint fyddant yn ei dalu am eu costau gofal.

Mae'r rheolau'n nodi y bydd y rhai sydd ag incwm a/neu gynilion sy'n llai na'r isafswm yn talu dim am eu gofal cartref. Fodd bynnag, bydd pobl sydd â chynilion personol sy'n fwy na £22,000 yn talu'r uchafswm am yr oriau gofal a aseswyd ar eu cyfer. (Gallwch benderfynu talu'r uchafswm am eich pecyn gofal heb asesiad ariannol os nad ydych yn dymuno trafod eich materion ariannol). Rhwng y ddau grŵp yma bydd Defnyddwyr Gwasanaeth a fydd yn talu rhywbeth ond bydd y swm yn dibynnu ar ganlyniad yr asesiad ariannol a nifer yr oriau Gofal Cartref a aseswyd ar eu cyfer.

Incwm

Yn y mwyafrif o achosion bydd eich holl incwm o ba ffynhonnell bynnag yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol. Mewn rhai amgylchiadau fodd bynnag, mae'n bosib y bydd rhai elfennau o'r incwm yn cael eu diystyru neu bydd lwfansau'n cael eu hystyried, a bydd hynny'n gostwng yr incwm fydd yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol.

Lwfansau neu Ddiystyriadau

Mae'r rhestr isod yn dangos y prif lwfansau neu ddiystyriadau fydd yn cael eu hystyried:

- Unrhyw enillion cyflogaeth gan bobl anabl.
- Lwfans Gofalwr.
- Budd-dâl Plant.
- Taliadau Bonws y Nadolig.
- Treth y Cyngor.
- Credyd Treth Person Anabl.
- Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol.
- Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (o'i gymharu â'r elfen gofal) ac Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel.
- Treuliau a delir yn y gwaith.
- Taliadau i Gyn-garcharorion Rhyfel y Dwyrain Pell a thaliadau Niwed trwy Frechiad
- Rhent/Morgais.

- Yr hyn sy'n cyfateb i gymhorthdal incwm sylfaenol a 35% yn ychwanegol. Mae'r swm yn amrywio yn ôl oedran ac amgylchiadau.
- Y £10 cyntaf o bensiynau Anabledd Rhyfel a phensiynau Gweddwon Rhyfel.
- Gwerth eich cartref (sylwer: nid unrhyw eiddo ychwanegol).
- Pensiwn Atodol Gweddwon Rhyfel.
- Taliadau Tanwydd Gaeaf.
- Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio.

Cynilion

Os oes gennych gynilion sy'n llai na £17,250 yna byddant yn cael eu hanwybyddu yn ystod yr asesiad ariannol a bydd unrhyw dâl a godir arnoch yn dibynnu ar eich incwm yn unig. Os oes gennych gynilion sy'n fwy na £17,250 ond yn llai na £22,000, codir tariff ar yr incwm wythnosol sef £1 am bob £250 o gynilion (neu ran o £250), e.e. cynilion o £18,500 = incwm tybiannol o £5 yr wythnos a byddai hyn yn cael ei ychwanegu at eich incwm. Os yw eich cynilion yn fwy na £22,000 yna byddwch yn talu'r gost lawn yn seiliedig ar nifer yr oriau gofal cartref y dylech eu cael yn ôl eich asesiad hyd at yr uchafswm ar y pryd.

Budd-daliadau Anabledd

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi caniatâd i ddiystyru Gwariant yn ymwneud ag Anabledd o 10% ar gyfer yr **holl** ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn

ychwanegol at hyn bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn diystyru elfen o'r budd-dal anabledd fel incwm. Ar hyn o bryd mae hyn wedi cael ei osod ar 25% o elfen gofal dydd budd-daliadau o'r fath a'r cyfan o elfen gofal nos budd-daliadau o'r fath.

Costau Anabledd

Yn ychwanegol at y diystyriadau uchod, bydd y Cyngor yn caniatáu costau gofal personol yn ystod y dydd gan ddarparwyr gofal cofrestredig a chost systemau larwm personol (e.e. Llinell Gofal) fel diystyriad. Byddwn yn gofyn ichi roi'r derbynebau am y gwasanaethau hyn inni. Yn ychwanegol at hyn, os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn prynu gofal nos gan ddarparwr gofal cofrestredig ac y bydd cost y gofal hwn yn uwch nag elfen gofal nos y budd-dal a dderbynnir, yna bydd y gost ychwanegol yn cael ei ganiatáu fel diystyriad.

Taliadau wrth yr Awr a'r Uchafswm

£8.50 yr awr yw'r tâl am Ofal Cartref yn 2007-2008. Bydd y swm a delir gan ddefnyddiwr gwasanaeth yn dibynnu ar ganlyniad eu hasesiad ariannol a nifer yr oriau Gofal Cartref y dylai eu cael yn ôl yr asesiad hwnnw. Ni fydd unrhyw un sy'n talu yn cael eu gofyn i dalu mwy na'r uchafswm. £85.00 yr wythnos yw'r uchafswm ar hyn o bryd. (Codi'r tâl wrth yr wythnos sy'n rhedeg o Ddydd Llun i Ddydd Sul).

Prydau Bwyd a Chludiant

Yn 2007-2008 y tâl am brydau cymunedol, a phrydau a ddarperir yn y canolfannau, fydd £2.75 am bryd bwyd a bydd cost cludiant i ganolfannau gofal dydd yn £1.30 am daith yno ac yn ôl. Bydd pawb yn talu'r taliadau hyn beth bynnag fydd canlyniad eu hasesiad ariannol.

Gwasanaethau golchi dillad

Mae rhywfaint o le gan y Cyngor i olchi dillad mewn rhai o'i ganolfannau dydd a chanolfannau eraill. Y tâl am olchi dillad yn 2007-2008 fydd £1.40 y bag i Ddefnyddwyr Gwasanaeth a aseswyd eu bod angen y gwasanaeth hwn. Bydd bagiau dillad arbennig yn cael eu darparu i'r Defnyddwyr Gwasanaeth dan sylw. Bydd pawb yn talu'r taliadau hyn beth bynnag fydd canlyniad eu hasesiad ariannol.

Gofal Nos

Mae trefniadau arbennig ar gyfer gofal nos. Nid yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth nos ar hyn o bryd, felly os byddwch yn talu am ofal nos yna bydd y taliadau hyn yn cael eu cyfrif fel gwariant angenrheidiol a gall olygu y byddwch yn talu llai am eich Gofal Cartref.

Dau Gynorthwy-ydd Gofal Cartref

Bydd rhai pobl ag anghenion arbennig yn cael dau Gynorthwy-ydd Gofal Cartref ar yr un pryd i ofalu amdanynt. Bydd unrhyw dâl yn dibynnu ar nifer yr oriau sydd eu hangen, nid ar nifer y Cynorthwywyr Gofal.

Gwyliau

Os byddwch yn mynd ar wyliau, yn aros gyda'ch teulu, neu os bydd eich teulu'n dod i aros atoch chi yna byddwch yn dal i orfod talu'r taliadau.

Aros mewn Ysbyty neu Ofal Seibiant

Os byddwch yn cael eich derbyn i ysbyty neu'n cael gofal seibiant yna bydd eich pecyn Gofal Cartref yn gorffen dros dro. Ni fyddwch yn talu am y gwasanaeth a gewch yn yr wythnos y byddwch yn cael eich derbyn, ond byddwch yn talu'r gost wythnosol lawn am yr wythnos y byddwch yn cael eich rhyddhau.

Trefniadau ar gyfer asesiadau ariannol

Cynigir asesiad ariannol i bawb sy'n defnyddio Gwasanaeth Gofal Cartref. Mae gennych hawl i wrthod, ac os byddwch yn gwneud hynny, yna gofynnir ichi dalu'r gost briodol am y gwasanaeth a asesir ar eich cyfer, hyd at uchafswm y gost ar y pryd. Os byddwch yn cytuno i gael asesiad ariannol yna

bydd hyn yn digwydd yn eich cartref chi fel rheol er mwyn sicrhau preifatrwydd. Fel arall gellir trefnu cyfweliad preifat yn un o swyddfeydd y Cyngor sy'n gyfleus i chi. Os dymunwch gall perthynas neu ffrind fod yn bresennol. Os nad ydych yn trin eich materion ariannol eich hunan, yna gall y person sy'n gwneud hynny drosoch lenwi'r ffurflen ar eich rhan. Os nad ydych yn dymuno i ni ymweld â chi yn eich cartref yna gallwch gael y ffurflenni priodol i chi eu llenwi heb ein cymorth ni.

Mae'n bwysig nad ydych yn talu mwy nag y dylech, na thalu dim os oes hawl gennych i gael gwasanaeth am ddim. Trwy edrych ar eich sefyllfa ariannol gallwn sicrhau eich bod yn derbyn yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt. Byddwn yn eich helpu chi i lenwi unrhyw ffurflen/ffurflenni fydd ei/eu hangen.

Bydd rhaid inni wneud copïau o'r dogfennau ariannol a ddefnyddiwn er mwyn inni gael cofnod cywir o'ch sefyllfa ariannol pan fyddwch yn cael asesiad ariannol. Mae pob un o'n Staff Asesu wedi cael eu harchwilio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac mae gennym weithdrefnau ar waith i sicrhau bod eich preifatrwydd chi'n cael ei ddiogelu.

Mae'n bosib na fydd tâl am wasanaethau ôl-ofal a fydd yn cael eu darparu o dan Adran 117 o Ddeddf Meddwl Iechyd 1983.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gwneud addewid na fydd defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol

dibreswyl sy'n dioddef gan unrhyw ffurf ar CJD yn cael asesiad ariannol, ond eu bod yn cael eu heithrio'n awtomatig.

Asesiadau ariannol ar y cyd

Bydd yr asesiad ariannol yn cael ei gynnal ar y person sydd i dderbyn Gwasanaeth Gofal Cartref. Dim ond yr incwm a'r cynilion y mae gan y person hwnnw hawl iddynt fydd yn cael eu hystyried. Os yw'r cynilion/budd-daliadau ac ati ganddynt ar y cyd â rhywun arall yna cânt eu dosrannu ar sail hawl. Os oes budd-daliadau'n cael eu talu ar sail 'pâr' yna bydd y swm a delir i'r person sy'n mynd i dderbyn gwasanaeth Gofal Cartref yn cael ei ystyried yn y broses asesu ariannol.

Os oes rhywun arall yn byw gyda chi yn yr un cyfeiriad yna bydd y Cyngor yn gwneud ei orau i sicrhau bod y preswylwyr yn parhau i gael y lefel briodol o Gymorth Incwm priodol yn ogystal â 35% ar ben hynny. Byddai asesiad ariannol yn cael ei gynnig i'r person(au) arall/eraill sy'n byw yn y tŷ a gallai'r canlyniad olygu y byddai'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn talu llai am Ofal Cartref.

Os ydych yn credu bod eich asesiad ariannol yn anghywir

Os ydych yn credu bod y tâl a godir am eich Gofal Cartref wedi cael ei asesu'n anghywir, yna dylech gymryd y camau canlynol:

1. Cysylltwch â'r Tîm Asesu Taliadau Tecach. Yna bydd Swyddog yn bwrw golwg dros eich asesiad i sicrhau bod yr holl ffigyrau'n gywir ac nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol ar goll.

2. Gofynnwch i ffeil eich achos gael ei hadolygu gan Uwch Swyddog. Bydd y Swyddog hwnnw/honno yn ysgrifennu atoch i egluro pam mae'r rheolau wedi cael eu dehongli mewn ffordd benodol.

Hefyd gallwch ofyn i rywun y tu allan i'r Cyngor fwrw golwg dros y cyfrifiadau (e.e. y Ganolfan Cyngor ar Bopeth).

Apeliadau

Os ydych wedi mynd trwy'r broses uchod ac yn dal i gredu bod y rheolau sy'n ymwneud â'ch taliadau chi wedi cael eu defnyddio'n anghywir, yna gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad gan ddefnyddio'r broses apeliadau. Bydd panel o uwch reolwyr yn ystyried yr apêl ar ran yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai ac efallai byddant yn ei chyfeirio at Gyfarwyddwr

yr Adran Gofal Cymdeithasol a Thai ac Aelod Etholedig i wneud penderfyniad terfynol.

Cysylltu

Os dymunwch gysylltu â'r Cyngor ynghylch eich taliadau yna gallwch ysgrifennu at y canlynol neu eu ffonio:

Y Tîm Asesu Taliadau Tecach
Cyngor Sir Caerfyrddin
3 Heol Spilman
CAERFYRDDIN
SA31 1LE

☎ 01267 228977 neu 228814 neu 228838 neu 228632

Cwynion

Os ydych yn anhapus ag unrhyw un o'n gwasanaethau, neu â'r modd y cawsoch chi eich trin yna mae gennych hawl i wneud cwyn. Mae rhagor o fanylion ynghylch sut i ddefnyddio gweithdrefn gwynion yr adran ar gael yn y daflen “Ydych chi'n hapus â'ch gwasanaethau?” neu drwy gysylltu â'r Swyddog Cwynion ar 01267 228835.